

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 18, 2022

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir  
**Nos Fawrth, Hydref 18, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cyngorwyr: Meurig Ashton (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Robin Jones. Rhun Prys Jones, Barry Jones ac Emlyn Roberts. Hefyd Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod, a chroesawyd Robin Jones fel cyngorydd i'r Cyngor ac yn ei gyfarfod cyntaf y Cyngor.

Diolchwyd i Karen G. Goswell am fod yn Gadeirydd y Cyngor blwyddyn ddiwethaf.

**2. Ymddiheuriadau:** Llion Williams..

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 20, 2022**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 20, 2022.**

Doedd dim materion yn codi.

**7. Gohebiaeth**

a. Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn rhoi gwybod maent wedi cyhoeddi eu Canllaw Arolygon Cymunedol. Mae hwn i sicrhau bod Cymunedau yn parhau i adlewyrchu eu hardal yn enwedig mewn sefyllfa lle e.e. mae stad o dai wedi'u hadeiladu dros ffin bresennol y Gymuned. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau posibl i ffiniau Cymunedol neu drefniadau etholiadol achosi pryder i gynghorau. Mae'r Canllawiau'n nodi cyfnod o ymchwilio ac ymgynghoori sydd eu hangen yn ystod gynnal Arolygon Cymunedol. Amgáu mae'r Canllawiau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 18, 2022

b. Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda gwybodaeth ar gyfer cynllun hyfforddiant i'r Cyngor. Mae'r wybodaeth yn cynnwys dogfen Model Dimpled ar gyfer y cynllun. Mae hyn er mwyn inni gyflawni cyfrifoldeb statudol y Cyngor.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru 2021) mae angen i gynghorau cymuned gwneud a chyhoeddi cynllun hyfforddiant ar gyfer aelodau a staff a'i gyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2022. Mae angen cynghorwyr a chlercod cael hyfforddiant i gyflawni eu rôl.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Wedi gwneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru (28/9/2022) ynglŷn â'r mater, cafwyd fwy o wybodaeth am y cynllun hyfforddiant a chafwyd wybod mae rhaid i'r Cyngor paratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddiant cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon i'r aelodau rhestr o gyrsiau sydd ar gael ac iddynt roi gwybod i'r Clerc pa gyrsiau sy'n ddefnyddiol iddynt.

c. Llythyr (29/9/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafniadaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Coed y Moch, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 5/10/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (29/9/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafniadaeth dros dro ar Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn a Dolgun Uchaf, Dolgellau. Bydd y ffordd ar gau ar 5/10/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (26/9/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith ailwynebu ar ffordd Ffridd Goch Isaf – Groesffordd, Llanfachreth.

dd. Llythyr (5/10/2022) oddi wrth Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid) yn rhoi gwybod derbyniwyd hysbysiad ar y 5/9/2022 gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) am bresenoldeb ffliw adar pathogenaidd iawn (HPAI) H5N1 ar safle adar caeth yn Arthog. Cafodd Ardal Amddiffyn 3km a Pharth Gwyliadwriaeth 10km eu datgan o amgylch yr adeiladau heintiedig. Yn dilyn ymyrraeth gyflym gan APHA a Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid), drwy weithredu gweithgareddau rheoli clefydau oddi fewn y parth diogelu 3km, mae'r parth bellach wedi cael ei godi ers 30/9/2022. Mae'r parth gwyliadwriaeth 10km fodd bynnag yn parhau yn ei le. Mae rhagor o fanylion am y mesurau yn y parth gwyliadwriaeth ar

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 18, 2022

gael ar: <https://llyw.cymru/datganiad-o-barth-gwarchod-parth-gwyliadwriaeth-ffliw-adar-ger-arthog-gwynedd-cymru>

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (7/10/2022) oddi wrth Mr Martin Sanders, Snowdonia Challenge Organiser yn holi os yw cau chwarae ysgol Llanfachreth ar gael i barcio ceir tuag at eu cystadleuaeth Snowdonia Challenge o gerdded mynydd. Bydd 50 o geir a bydd y gystadleuaeth ar ddydd Sadwrn Mehefin 10fed.

Cafwyd wybod gan Rhun maent wedi gwneud ymoliadau am le parcio yn Ysgol / Neuadd Abergeirw.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt nid yw'r tir ar gael iddynt oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio gan Eisteddfod Llanfachreth.

f. Llythyr (14/10/2022) oddi wrth Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cynnwys adroddiad ar asedau cymunedol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (17/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd rhaglen Zoom yn cael ei ddefnyddio ar gyfer eu hyfforddiant a chyfarfodydd . Amgáu mae cyfarwyddiadau i ddefnyddio Zoom.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (17/10/2022) oddi wrth Gerallt Griffith yn holi am wybodaeth ar Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd sydd yn cau dydd Gwener, 28 Hydref 2022. Maent yn awyddus clywed barn y cyhoedd am gynyddu'r dreth ar ail gartrefi a thai gwag hir dymor o ganran uwch na'r lefel bresennol o 100% i uchafswm o 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Cyfeiriad <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Premiwm-Treth-Cyngor.aspx>

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau, a chynghorau cymuned Llanelltyd a Ganllwyd.

Penderfynwyd i'r aelodau hynny oedd gan sylw ar y mater rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd.

h. Llythyr (18/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau hyfforddiant ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio: NP5/54/LB210F. Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw dau system gwresogi ffynhonell ddaear o fewn cwrtil Adeilad Rhestredig Gradd II. Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (8/10/2022).

## **9. Materion Ariannol**

a. Cerdyn (24/9/2022) oddi wrth Merched y Wawr Rhydymain yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Bil (22/9/2022) am £214 oddi wrth Cyngor Gwynedd tuag at gostau etholiad cynghorau tref / cymuned 2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (29/9/2022) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at gostau'r Urdd ym Meirionnydd.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Cerdyn (4/10/2022) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £700. Amgáu mae Mantolen 2021/2022.

d. Llythyr (6/9/2022) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod am eu Hadroddiad Blynyddol Drafft.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (14/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent am ymateb i'r ymgynghoriad Hadroddiad Blynyddol Drafft. Os mae gennym ni ymateb i'w wneud maent ei angen cyn Tachwedd 16.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Un Llais Cymru ein bod yn gwrthwynebu y syniad mae rhaid i'r aelodau cael eu talu.

dd. Llythyr (18/10/2022) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at yr Eisteddfod bydd yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2023.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 18, 2022

- e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2022: £1,142.13..  
Balans yn y banc ar 29/9/2022: £13,255.13 (29/9/2021: £11,768.10).

**10. Archwilio**

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

- a. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno bydd Gwasanaeth Cynnal Gaeaf, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn darparu biniau halen y gymuned a'i llenwi o 1/10/22 ymlaen. Amgáu mae adroddiad Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau.

- b. Mae Cyngor Gwynedd yn adolygu gwaith y bysiau. Roedd gwaith Shrepa yn ardal Caernarfon yn llwyddianus.
- c. Mae anhawster cael gofalwyr i'r henoedd ac mae anhawster cael staff i'r Canolfan Hamdden.
- ch. Mae Priffyrdd yn mesur cyflymder traffic ar ffordd wrth Seren Fach.
- d. Mae anhawster i bawb cael broadband yn Brithdir. Roedd toriad yn wasanaeth broadband am gyfnod yn Llanfachreth.
- dd. Mae Cyngor Gwynedd yn categoreiddio ysgolion i ddefnyddio fwy o Gymraeg.
- e. Mae trafodaethau yn parhau gyda lleoli Ambiwlans Awyr Cymru.

**12. Materion yr Aelodau**

- a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiaid.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Yr unig newid oedd yn Rheolau Sefydlog lle newidwyd 'Cworwm Eitem 7. (i) Pedwar Cynghorydd fydd y cworwm.'

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

- b. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd (1/10/2022) mae angen trwsio ochr y ffordd wrth Rhiwfelen, Abergeirw; mae'r ochr yn dirywio. Mae hwn yn hen gwyn (gweler Cofnodion Chwefror 15, 21022).
- c. Mae trafodaethau yn parhau gyda dyfodol Ysgol Llanfachreth.

-----

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION HYDREF 18, 2022

Annwyl Syr,

Rwy'n cyfeirio at eich ymgynghoriad 'Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2023'.

Mae Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth yn gwrthwynebu'r syniad mae rhaid talu £156 y flwyddyn i'w haelodau.

Cyngor gwledig sydd gennym ni gydag ychydig iawn o bwerau. Mae rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â gohebiaeth sydd yn cael eu rhannu i aelodau'r Cyngor a'u trafod yn y cyfarfodydd misol i roi ymateb os mae angen. Mae gan y Cyngor yr hawl i wneud gwaith ar gynnal a chadw eu hasedau ond er hynny nid oes gan y Cyngor pwerau i wneud gwaith fel llenwi twll mewn ffordd, sgubo ffordd oherwydd mae rhain yn cael eu gwneud trwy roi gwybod i'r awdurdodau sydd â phwerau i wneud y gwaith. Os mae materion cymhleth yn codi, fel materion ariannol mae angen cael arweiniad proffesiynol.

Ym marn yr aelodau does dim rheswm iddynt gael eu talu.

Yn gywir,

H.M. Edwards

Clerc Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth

-----